**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 4 Ebrill, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.D.D. Carroll (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Mrs. S.M. Hanks, K.F. McCaffer, M.J.G. Morgan, Mrs. S.D. Perkes a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B.T. Gray a L.O. Rowlands

EITEM AGENDA 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr V.J. Bailey (Cadeirydd) a N.C. Thomas.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. RHAGLEN SEFYDLU TGCH I AELODAU 2022 (PW) –

PENDERFYNWYD –

(1) Dosbarthu manylion y dyfeisiau gliniaduron newydd oedd i'w prynu a meddalwedd perthnasol i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

(2) Cymeradwyo'r Cynllun Anwytho TGCh Aelodau arfaethedig, fel y'i nodir yng nghorff yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau a gofyn am gymeradwyaeth i drefniadau Sefydlu Aelodau a'r Rhaglen Datblygu Aelodau barhaus a'u cyflwyno wedyn.

EITEM AGENDA 5. RHAGLEN SEFYDLU A DATBLYGU AELODAU 2022 – DIWEDDARIAD (PGD) -

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau 2022, sydd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau Cyfetholedig ddrafft 2022, sydd ynghlwm fel Atodiad C i'r adroddiad,

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1&2) Hwyluso'r gwaith dilynol o gyflwyno Digwyddiadau Anwytho Aelodau a Rhaglen Datblygu Aelodau barhaus.